

Yr Adran 50/50

Ebrill 2025



Contents

Cyflwyniad	2
Faint fydd y gost i chi ymuno â'r Adran 50/50?.....	2
A fydd yr Adran 50/50 yn effeithio ar eich sicrwydd bywyd, eich yswiriant salwch a'ch buddion goroeswr?	2
Sut bydd eich pensiwn yn cronni yn y Brif Adran ac yn yr Adran 50/50?	3
Sut ydych yn ymuno â'r Adran 50/50?.....	3
Pa mor hir allwch chi gyfrannu at yr Adran 50/50?	3
Allwch chi symud yn ôl i'r Brif Adran?	3
Beth sy'n digwydd os nad ydych ar unrhyw dâl oherwydd salwch neu anaf?	4
Allwch chi dalu cyfraniadau ychwanegol?	4
All fy Nghyflogwr ofyn / gorfodi i mi ymuno â'r Adran 50/50?	4
A all y Gronfa Bensiwn roi Cyngor Ariannol i mi?.....	4
Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	4
Ymwadiad	4

Cyflwyniad

Mae dwy adran i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL). Mae yna'r adran arferol, a elwir yn **Brif Adran** ac mae yna'r **Adran 50/50**. Y **Brif Adran** yw lle rydych chi'n talu cyfraniadau arferol ac yn derbyn y pensiwn arferol sydd yn cael ei gronni. Gyda'r **Adran 50/50** rydych chi'n talu **hanner** eich cyfraniadau arferol i gronni **hanner** eich pensiwn arferol.

Faint fydd y gost i chi ymuno â'r Adran 50/50?

Mae'r tabl canlynol yn dangos y bandiau cyfraniadau sy'n berthnasol yn y **Brif Adran** a'r **Adran 50/50** rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026:

Eich Gwir-dâl Pensiynadwy	Cyfradd Cyfraniad ar gyfer y Brif Adran	Cyfradd Cyfraniad ar gyfer yr Adran 50/50
Hyd at £17,800	5.50%	2.75%
£17,801 i £28,000	5.80%	2.90%
£28,001 i £45,600	6.50%	3.25%
£45,601 i £57,700	6.80%	3.40%
£57,701 i £81,000	8.50%	4.25%
£81,001 i £114,800	9.90%	4.95%
£114,801 i £135,300	10.50%	5.25%
£135,301 i £203,000	11.40%	5.70%
Yn fwy na £203,001	12.50%	6.25%

A fydd yr Adran 50/50 yn effeithio ar eich sicrwydd bywyd, eich yswiriant salwch a'ch buddion goroeswr?

P'un a ydych yn cyfrannu o dan y **Brif Adran** neu'r **Adran 50/50**, byddwch yn cael sicrwydd yswiriant bywyd llawn, yswiriant salwch llawn a buddion goroeswr llawn pe byddech chi'n marw.

Sut bydd eich pensiwn yn cronni yn y Brif Adran ac yn yr Adran 50/50?

Mae'r enghraifft isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau rydych yn eu talu, a'r pensiwn rydych yn ei gronni rhwng y **Brif Adran** a'r **Adran 50/50**, yn **defnyddio** tâl pensynadwy blynyddol o £18,000.

	Prif Adran	Adran 50/50
Cyfraniad (Gros):	£1,004 (5.80%)	£522 (2.90%)
Pensiwn sy'n cael ei gronni:	£367.35 (1/49fed)	£183.67 (1/98fed)
Yswiriant Bywyd:	£54,000 (3 x £18,000)	£54,000 (3 x £18,000)

Sut ydych yn ymuno â'r Adran 50/50?

Os hoffech chi ymuno ag Adran 50/50 y cynllun pensiwn, cysylltwch â'ch Cyflogwr / Cronfa Bensiwn i ofyn am y **Ffurflen Ethol Adran 50/50**. Os oes gennych fwy nag un swydd, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Ethol ar gyfer pob swydd.

Pa mor hir allwch chi gyfrannu at yr Adran 50/50?

Mae'r **Adran 50/50** wedi ei chynllunio i fod yn opsiwn tymor byr i'ch helpu chi yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Does dim terfyn amser i ba mor hir allwch chi aros yn **Adran 50/50** y cynllun. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses cofrestru awtomatig, byddwch yn cael eich rhoi yn ôl yn y cynllun Prif Adran bob tair blynedd ar y gyfradd gyfrannu lawn. Os ydych eisiau aros yn yr Adran 50/50, bydd angen i chi lenwi ffurflen **Ethol Adran 50/50** newydd.

Allwch chi symud yn ôl i'r Brif Adran?

Gallwch, mae gennych yr opsiwn i symud yn ôl i'r **Brif Adran** ar unrhyw adeg. Bydd angen i chi lenwi ffurflen Ethol i ailymuno â **Phrif Adran** y Cynllun. Yna byddwch yn dechrau cronni buddion llawn yn y **Brif Adran** o'r cyfnod tâl nesaf.

Beth sy'n digwydd os nad ydych ar unrhyw dâl oherwydd salwch neu anaf?

Os nad ydych yn derbyn tâl oherwydd salwch neu anaf byddwch yn cael ei symud yn ôl i **Brif Adran y cynllun pensiwn**. Byddwch yn cronni buddion pensiwn ar y gyfradd lawn.

Allwch chi dalu cyfraniadau ychwanegol?

Os ydych yn Adran 50/50 y cynllun pensiwn ac yn talu neu'n ystyried talu cyfraniadau ychwanegol, cysylltwch â'r gronfa pensiwn i drafod sut bydd hyn yn effeithio ar yr Adran 50/50.

All fy Nghyflogwr ofyn / gorfodi i mi ymuno â'r Adran 50/50?

Ni all eich cyflogwr ofyn na gorfodi i chi ymuno ag Adran 50/50 y cynllun. Os ydych yn teimlo bod eich Cyflogwr yn eich annog i ymuno â'r Adran 50/50 o'r cynllun pensiwn, yna hysbyswch **Y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR)**. Gallwch wneud hyn trwy eu gwefan: www.thepensionsregulator.gov.uk/cy

A all y Gronfa Bensiwn roi Cyngor Ariannol i mi?

Nodwch os gwelwch yn dda na all y Gronfa Bensiwn roi unrhyw gyngor ariannol i chi. Ar ôl i chi ystyried y wybodaeth yma, efallai y bydd angen i chi ofyn am Gyngor Ariannol Annibynnol cyn gwneud eich penderfyniad.

Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn.

Ymwadiad

Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: <https://unbiased.co.uk/> Gwasanaeth Cyngor

Arian:

<https://www.moneyadvice.service.org.uk/en/articles/choosing-a-financialadviser>